CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 13 Tachwedd.
Llongyfarchwyd Alwena Mair Owen (merch y Clerc) ar lwyddo i gipio'r wobr gyntaf am ganu Unawd Cerdd Dant oed cynradd yng Ngŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Medi.

AGENDA:
Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Y CAE CHWARAE:
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.
Yn dilyn cyfarfod a gafodd ei gynnal ar y cae ar ddydd Sadwrn 11 Tachwedd 2017 penderfynwyd:
Hysbysebu cynnig i wneud gwaith ar Gae Chwarae, Llanllwni:

- Tynnu'r ffens weiren bresennol a'i symud.
- Tocio'r canghennau sydd ar y coed a'u gwaredu.
- Cwympo'r coed i gyd a'u gwaredu.
- Codi'r gwreiddiau i gyd a'u gwaredu.
- Gwastodi'r ddaear a'u wneud yn llyfn.

TREFNIADAU ETHOLIADOL
Bu cyfarfod yn siambr Neuadd y Sir, Caerfyrddin ar 20 Medi 2017.Yr oedd Dewi Davies ac Eric Davies wedi mynychu'r cyfarfod ond nid oeddent o'r farn y byddai newidiadau sylweddol a fyddai'n effeithio ar Gyngor Bro Llanllwni yn y dyfodol agos.

PLISMONA
Roedd yr arferion parcio drwg a pheryglus yn parhau o flaen garej Celtic Classics. Yr oedd y cynghorwyr yn pryderu am ddiffyg cynrychiolaeth gan yr heddlu yng nghyfarfodydd y cyngor. Penderfynwyd cysylltu â'r Prif Arolygydd ynglŷn â hyn.

FFERM WYNT GORLLEWIN COEDWIG BRECHFA:
Bydd cyfarfod cyhoeddus i drafod y pwnc ym Mhafiliwn/Neuadd Bentref Pencader ar 21 Tachwedd rhwng 4yp – 7yp; Neuadd Eglwys Brechfa ar 22 Tachwedd rhwng 4yp – 7yp.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 08 Ionawr 2018 am 8.00yh.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.